MAE CONSENSUS YMA I'CH CEFNOGI CHI

Os oes gennych anabledd dysgu, awtistiaeth ac anghenion cymhleth

FERSIWN HAWDD EI DARLLEN

DYSGWCH RAGOR AM EIN CARTREFI A'N GWASANAETHAU

consensus

Yn cefnogi cyfle, dewis a llwyddiant

Ynglŷn â Consensus

consensus Yn cefnogi cfle, dewis a llwyddiant	Cwmni yw Consensus. Rydym yn cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion cymhleth.
	Nid ydyn nhw'n gallu byw ar eu pennau eu hunain heb help a chefnogaeth.
	Mae gennym dros 90 o gartrefi sydd yn Lloegr, yr Alban a Chymru.
	Mae gan rai pobl anableddau corfforol ac efallai y bydd arnynt angen cadair olwyn.
	Efallai bydd rhai pobl yn orbryderus ac yn ymddwyn mewn ffordd heriol.
	Mae gan bawb anghenion gwahanol. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sy'n iawn i chi.
	Rydym yn sicrhau eich bod yn teimlo yn ddiogel ac yn cael eich amddiffyn.

Sut lefydd yw ein cartrefi

Efallai y byddwch yn byw mewn cartref gyda phobl eraill ag anghenion tebyg.

Neu efallai y byddwch yn rhannu fflat neu yn byw mewn fflat ar eich pen eich hun.

Bydd tîm o bobl yn eich cefnogi yn y ffordd y byddwch am iddyn nhw wneud.

Bydd gennych eich ystafell wely eich hun. Gallwch addurno eich ystafell yn ôl eich dewis.

Mae lluniau o'n cartrefi ar ein gwefan. Teipiwch **www.consensusupport.com** yn y bar chwilio.

Dewch o hyd i gartref neu wasanaeth

Cliciwch ar y symbol hwn ar ein gwefan. Gallwch weld lluniau o'n cartrefi a dysgu rhagor amdanyn nhw.

Dod o hyd i'r cartref iawn i chi

Bydd pobl broffesiynol yn cytuno ar y lle gorau i chi fyw a'r gefnogaeth y bydd ei hangen arnoch.

Cyn i chi symud i un o'n cartrefi, byddwch yn gallu ymweld ag o yn gyntaf.

Cewch gyfarfod y bobl sy'n gweithio yno a'r bobl eraill sy'n byw yno.

Rydym am wneud yn siŵr y byddwch yn gallu dod ymlaen â'r bobl sy'n byw yno.

Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i gartref sy'n agos at eich ffrindiau a'ch teulu.

Sut y gallwn ni eich cefnogi chi

Byddwn yn eich helpu i setlo yn y cartref. Gallwch ddweud wrthym am unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych.

Gallwn eich cefnogi i wneud tasgau bob dydd fel glanhau, ymolchi a mynd i siopa.

Gallwch ddwud wrthym pa ddiddordebau yr hoffech eu dilyn.

Gallwn eich helpu i ddod yn fwy annibynnol a hyderus.

Byddwn yn eich helpu i wneud ffrindiau newydd a mwynhau gweithgareddau cymdeithasol.

Gallwn ni eich helpu i gynllunio a choginio eich prydau.

Gallwn eich helpu i reoli eich arian.

Sut y gallwn ni eich cefnogi chi

Gallwn ni eich cefnogi i fynd i'r coleg a dysgu sgiliau newydd.

Gallwn eich helpu chi i fynd ar eich gwyliau.

Gallwn eich cefnogi chi i gael swydd.

Gallwn eich helpu i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Gallwch ddweud wrthym os byddwch chi am stopio gwneud gweithgaredd.

Gall eich ffrindiau a'ch teulu ymweld â chi ar unrhyw adeg.

Gallwn ddarparu offer ychwanegol y gallwch fod eu hangen. Gall hyn fod yn ramp cadair olwyn neu beiriant codi.

Eich cynllun cefnogi

	Dogfen ysgrifenedig sy'n dweud y cyfan amdanoch yw eich cynllun cefnogi.
	Bydd y tîm a fydd yn eich cefnogi yn sôn wrthych am eich cynllun.
	Bydd yn rhestru beth sy'n bwysig i chi a'r pethau yr ydych am eu cyflawni.
	Byddwn yn sicrhau nad yw'n cynnwys pethau nad ydych yn eu hoffi.
	Gall eich teulu ein helpu i lunio'r cynllun os bydd arnoch eisiau iddyn nhw.
	Byddwn yn eich cyfarfod yn aml i weld a ydych yn dal yn hapus gyda'ch cynllun.
	Gallwn newid eich cynllun ar unrhyw amser.

Sut yr ydym yn cyfathrebu â chi

	Byddwn yn dod o hyd i'r ffordd orau i gyfathrebu â chi.
	Byddwn yn sicrhau eich bod yn deall unrhyw wybodaeth a roddwn i chi.
	Efallai y byddai'n well gennych chi i ni ddefnyddio lluniau, geiriau syml neu arwyddo.
	Neu fe allwn ddefnyddio technoleg i gyfathrebu â chi.
	Rydym yn defnyddio Makaton.

Ynglŷn â'r bobl a fydd yn eich cefnogi

Mae'r bobl sy'n gweithio i ni wedi eu hyfforddi'n dda ac yn brofiadol.

Mae'n rhaid iddyn nhw lwyddo mewn gwiriad arbennig a elwir yn DBS. Mae hyn yn dweud wrthon ni eu bod yn iawn i weithio i ni.

Bydd gennych weithiwr allweddol sy'n eich cefnogi. Gallwch chi helpu i benderfynu pwy ddylai gael ei ddewis.

Mae gan bob cartref Reolwr sy'n gyfrifol am y cartref.

Bydd y Rheolwr a'ch gweithiwr allweddol yn eich helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau.

Byddan nhw'n eich trin â pharch ac urddas.

Cyflwyno cwyn

	Mae tîm o bobl yn ymweld â'n cartrefi. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n byw yno yn ddiogel a hapus.
	Os nad ydych yn hapus am rywbeth bydd angen i chi ddweud wrth eich gweithiwr allweddol neu'r Rheolwr.
	Gallwch ofyn am wybodaeth am sut i gyflwyno cwyn ar ffurf hawdd ei ddarllen.
	Byddwn bob amser yn sicrhau y byddwn yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

Cadw'n iawn ac iach

	Byddwn yn eich helpu i gymryd unrhyw feddyginiaeth, os oes angen.
	Gallwn eich helpu i gadw'n heini ac egnïol.
	Gallwn eich helpu i fwyta bwydydd iach.
	Byddwn yn mynd i apwyntiadau Meddyg gyda chi a'r Deintydd. Byddwn yn eich helpu i ddeall yr hyn maen nhw'n ei ddweud.

Os hoffech chi siarad â rhywun am ein cartrefi a sut y gallwn ni eich cefnogi chi, ffoniwch 0808 223 5320

Efallai y bydd ein Tîm yn gofyn ychydig o gwestiynau amdanoch chi a'ch anghenion. Efallai y byddan nhw hefyd yn gofyn ym mha dref yr ydych yn byw ar hyn o bryd.

Bydd hyn yn eu helpu i sôn am y cartref a allai fod orau i chi.

Fe allan nhw hefyd eich helpu i ddeall y camau nesaf.

consensus

Yn cefnogi cyfle, dewis a llwyddiant

Bradbury House, 830 The Crescent
Colchester Business Park
Colchester, Essex CO4 9YQ

T: **0808 223 5320**
E: **enquiries@consensussupport.com**
W: **www.consensussupport.com**

@ConsensusLD **www.facebook.com/ConsensusLD** *(chwiliwch am Wasanaethau Cymorth Consensws)*

Consensus Support Services Ltd. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 04081379
Swyddfa Gofrestredig Bradbury House 830 The Crescent Colchester Business Park Colchester Essex CO4 9YQ
Yn masnachu fel "Consensus". Rhan o Myriad Healthcare Holdings. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 09892549

Gorffennafso 2020

MKT035